

Un Llais Cymru



One Voice Wales

**Cynghorau Cymuned & Thref
Arweiniad Arfer Gorau Rhif 1
Ymgysylltu Cymunedol**

(Cyhoeddwyd Awst 2020)



Email/ebost: admin@onevoicewales.wales
Tel No/Rhif Ffon: 01269 595400
Website/Gwefan: www.onevoicewales.org.uk



[@onevoicewales.org.uk](https://twitter.com/onevoicewales.org.uk)

BLACHERE

NOT JUST FOR CHRISTMAS.

EXCLUSIVE TO ONE VOICE WALES MEMBERS 2 FOR 1 ON HIRE STOCK MOTIFS

"WHEN IT'S GONE, IT'S GONE!!" AVAILABLE WHILE STOCK LASTS

FL508-B

SPARKLIGHT LED -230V-20M
200 LED PURE WHITE WITH RUBBER CABLE
WAS £71 **NOW £60**

CALL 01137 832910



FL352

STALACTIT LIGHT- LED-230V-4.5M
PURE WHITE WITH RUBBER CABLE
WAS £62 **NOW £42**

CALL 01137 832910



FL501W-C

SPARKLIGHT LED -24V-25M 280 LED
PURE WHITE RUBBER CABLE
WAS £99 **NOW £74**

CALL 01137 832910



TREE KITS

4FT TREE LED LIGHT SET
AND WALL BRACKET
WAS £99 **NOW £79**

CALL 01137 832910



Content @ Blachere Illumination UK

Gladstone Place, Ladybank
Fife, KY15 7LB

01337 832 910
info@blachere-illumination.co.uk



Visit us on twitter

Mae Blachere Illumination wedi ymrwymo i helpu'r amgylchedd.

Trwy fuddsoddi mewn cynhyrchion ac atebion eco-weddus gobeithiwn leihau ein heffaith ar yr amgylchedd, her sy'n wynebu pob un ohonom yn ein byd heddiw. Rydym wedi creu cyfres unigryw Bioprint, y gyntaf o'i math yn y byd, sef yr adeiladwaith goleuo biodiraddiadwy cyntaf ar gyfer gwyliau wedi'i wneud o gynnyrch yn defnyddio cansenni siwgr.

Siaradwch ag unrhyw aelod o'n tîm am y cynnyrch BioPrint hwn sy'n arwain y farchnad. Mae Blachere wedi bod yn cynhyrchu goleuadau Gŵyl am fwy na 45 mlynedd gyda gofal ac angerdd.

Dyma'r y cyntaf mewn cyfres o Arweiniadau Arfer Gorau a gynhyrchir gan Un Llais Cymru gyda'r bwriad o rannu arfer gorau er mwyn datblygu'r agenda gwella a datblygu ar draws y sector.

Cynnwys

4. Trosolwg Byr
5. Ymgysylltu am Reswm
6. Deg Egwyddor Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru
7. Cyd-destun Polisi
8. Enillwyr Gwobr Ymgysylltu Cymunedol Gorau 2020 - Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn
9. Enillwyr Prosiect Ymgysylltu Cymunedol Gorau 2019 - Cyngor Tref Blaenafon
10. Enillwyr Gwobr Ymgysylltu Cymunedol Gorau 2018 – Cyngor Tref Llanelli
11. Enillwyr Gwobr Ymgysylltu Cymunedol Gorau 2017—Cyngor Cymuned Borth
12. Hyfforddiant Un Llais Cymru
13. Cyfeiriadau
15. Mwy am Un Llais Cymru

Ymgysylltu Cymunedol - Trosolwg Byr

Erbyn hyn, mae ymgysylltu cymunedol yn rhan annatod o bolisi llywodraeth ar bob lefel yng Nghymru, gwledydd Prydain ac ar draws yr holl sectorau.

Derbynnir y dylai cymunedau gael y cyfle i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd beunyddiol.

Mae ymgysylltu cymunedol yn broses gymhleth, ac mae'r Arweiniad Arfer Gorau hwn yn crynhoi at ei gilydd wybodaeth ar gyfer cynghorau fel y gallant rannu'r hyn y mae cynghorau eraill wedi'i ddysgu a'i brofi a chael cyfle i gynllunio sut ellir cynnwys y gymuned mewn prosiectau lleol a'r gwaith o wneud penderfyniadau.

Nodau Cyngor Cymuned neu Dref

- Adeiladu & gwasanaethu'r gymuned
- Adeiladu a chynnal cymunedau
- Darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd
- Adeiladu democratiaeth leol
- Bod yn gyflogydd da

Mae 735 gynghorau cymuned a thref yng Nghymru a thua 8000 o gynghorwyr. Cyngor cymuned neu dref yw'r rhan o lywodraeth leol sydd agosaf at y bobl. Nhw sy'n gwasanaethu'r ardal leiaf ac maent yn gyfrifol am y materion mwyaf lleol. Prif nod cyngor cymuned neu dref yw cynrychioli a gwasanaethu ei gymuned leol. Gall wneud hynny trwy adeiladu a chynnal cymunedau, trwy ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus a thrwy adeiladu democratiaeth leol.

Pam Ddylai Cynghorau Ymgysylltu

Rôl y Cyngor yw gweithio dros y gymuned ac mae ymgysylltu yn:-

- Cynnal democratiaeth
- Dilysu rôl arweinyddol y Cyngor
- Esbonio grym gosod praesept y Cyngor a'i ddyletswyddau a chyfrifoldebau
- Cyfrannu at broses llunio'r gyllideb
- Rôl y Cyngor yw pontio rhwng y gymuned leol, gwahanol lefelau llywodraeth a sectorau eraill
- Helpu'r Cyngor i gynrychioli barn y gymuned
- Cynnig proses ddwy ffordd o ddarparu a chasglu adborth am wasanaethau a materion o bwys
- Gwella tryloywder ac atebolrwydd
- Cyflawni disgwyliadau'r cyhoedd
- Cynnig cyfle i herio rhagdybiaethau, rhagfarnau, barnau anwybodus a chamddealltwriaethau.

Ymgysylltu am Reswm

Ymgysylltu Ffurfiol

| Ble | Sut | Pwrpas |
|-----------------------------|----------------------------------|-----------------------------------|
| Ar y stryd | Holiadur/Clipfwrdd | Casglu barn/gwybodaeth |
| Lleoliad cyhoeddus | Cyfarfod cyhoeddus a chyflwyniad | Darparu gwybodaeth a chasglu barn |
| Trwy Gyfryngau Cymdeithasol | Cwestiynau | Casglu barn/gwybodaeth |

Ymgysylltu Anffurfiol

| Ble | Sut | Pwrpas |
|--------------------------------------|---------------------|---------------------------------------|
| Ar y stryd | Sgwrs anffurfiol | Gwrandu ar farn/ syniadau |
| Mewn noson gymdeithasol / bore coffi | Rhoi marcwyr ar fap | Dod i wybod am y meysydd pryder mwyaf |

Mae cynghorwyr yn cynrychioli eu Cyngor yn 'ffurfiol' trwy ymgysylltu mewn lleoedd gwahanol a defnyddio ffyrdd gwahanol o weithio, ac fe gânt eu 'hasesu'n' barhaus gan eu cymunedau ar sut maen nhw'n ymgysylltu, cefnogi a gweithio gyda'u cymunedau.

Mae ymgysylltu 'ffurfiol' ac 'anffurfiol' yn galw am sgiliau a dulliau gwahanol o weithio.

Mae'n ddoeth ystyried cyflogi cymorth ac arweiniad proffesiynol wrth ddatblygu arolwg ymgysylltu.

Mae Cynllun Gwobrau Arfer Arloesol Un Llais Cymru yn cynnwys categori ar gyfer Ymgysylltu Cymunedol, ac amlygir nifer o gynigion buddugol o bedair blynedd diwethaf y Cynllun Gwobrau yn ddiweddarach yn yr arweiniad hwn.

Deg Egwyddor Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru

1. Pwrpas ymgysylltu yw gwneud gwahaniaeth
2. Annog & galluogi pawb sy'n cael eu heffeithio i gymryd rhan os ydynt yn dymuno
3. Caiff yr ymgysylltu ei gynllunio a'i gyflawni mewn ffordd amserol a phriodol
4. Gweithio gyda phartner fudiadau perthnasol
5. Ni fydd y wybodaeth a ddarperir yn cynnwys jargon, a bydd yn briodol a dealladwy
6. Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan
7. Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol
8. Rhoi'r adnoddau a'r gefnogaeth iawn i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol
9. Mae pobl yn cael gwybod beth oedd effaith eu cyfraniad
10. Dysgu a rhannu gwersi er mwyn gwella proses ymgysylltu

www.participationcymru.org.uk

Cyd-destun Polisi

- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
- Deddf Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) 2013
- Deddf Gofal Cymdeithasol & Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Modelau Darparu Amgen
- Adroddiad Terfynol y Panel Annibynnol i Adolygu Cynghorau Lleol
- Bil Llywodraeth Leol & Etholiadau (Cymru) 2019 (mae'n debygol o gael ei ddeddfu yn 2020)

Enillwyr Gwobr Ymgysylltu Cymunedol Gorau 2020

Mae **Cyngor Tref Pen-bre & Phorth Tywyn** wedi ymrwymo i ymgysylltu real ac effeithiol gyda'r gymuned. Mae wedi cyflwyno rhaglen sy'n gobeithio datblygu nifer o gyfryngau cyfathrebu amrywiol gyda phobl y cylch, ynghyd â strwythur sy'n galluogi'r gymuned i chwarae rhan lawn yn y penderfyniadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud.

Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus a roddodd gyfle i aelodau'r gymuned a mudiadau gwirfoddol lleol ddatgan beth oedd y blaenoriaethau iddyn nhw, ac fe sefydlwyd chwe fforwm cymunedol, gan adlewyrchu'n fras themâu'r ddeddfwriaeth Llesiant.

Cadeirir pob fforwm gan Gynghorydd yn y lle cyntaf, ac maent yn cynnwys aelodau'r gymuned a chanddynt ddiddordeb yn y maes arbennig hwnnw.

Maent yn cynhyrchu cynigion tymor byr, canolig a hir sy'n cael eu hymgorffori gan y Cyngor yn Strategaeth Gymunedol, a chaiff y cyhoedd y cyfle i bleidleisio arni.

Bydd bwrdd strategaeth gymunedol yn cynnwys cynrychiolyddion o bob un o'r fforymau a'r Cyngor Tref yn monitro a chraffu ar y ffordd mae'r strategaeth a gytunwyd yn cael ei chyflawni.

Yn ogystal ag aelodau cymunedol y fforymau, mae croeso i holl aelodau'r gymuned gyfrannu at lunio'r strategaeth trwy lwyfan Vocaleyes trwy drefniant amser go iawn.

Er mwyn sicrhau nad yw llais y genhedlaeth iau yn cael ei ddiystyru, mae'r Cyngor wedi sefydlu fforymau cysgodol yn yr ysgolion lleol, yn uwchradd a chynradd, ac mae ganddynt fewnbnw uniongyrchol i waith y fforymau cymunedol trwy Swyddog Datblygu Cymunedol y Cyngor.

Bu canlyniadau'r fenter hon yn rhyfeddol, ac maent yn cynnwys y canlynol;

Mae'r Fforwm Cydnerthedd wedi cyfrannu at bolisi parciau'r Cyngor ac maent yn chwarae rhan bwysig yn creu strategaeth blannu wahanol, creu gardd synwriadol a pherllan gymunedol.

Mae'r Fforwm Iechyd yn gweithio i wneud y dref yn Dementia weddus, mae wedi sefydlu clwb Gemau Bwrdd i fynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd ac mae'n rhoi pwysau ar y GIG yn lleol i gael mwy o feddygon teulu yn y dref.

Mae'r Fforwm Economi yn galw am brentisiaethau lleol ac mae wedi darbwyllo'r Cyngor Tref i arwain y ffordd trwy gyflogi'r prentis cyntaf. Mae'n gweithio ar hyn o bryd ar arbrawf gostyngiadau a gwobrau gyda siopau lleol.

Mae'r Fforwm Cydlynedd yn gweithio gyda'r Cyngor wedi cael grant o £8.5K i gyflawni prosiect pontio'r cenedlaethau ar dechnoleg fodern ac mae wrthi'n sefydlu grŵp ieuencid newydd.

Llwyddodd y Fforwm Diwylliant i ennill statws Tref Ddiwylliant Sir Gaerfyrddin 2020 i'r dref ac mae'n cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau sy'n cynnwys:

Gweithdai Ieuencid a Dyddiau Hwyl Gŵyl Gelf

Gŵyl Fwyd Ryngwladol Dyddiau Llesiant

Gwobrau Arwyr Lleol Eisteddfod y Dref

a llawer iawn o ddigwyddiadau eraill, gan weithio gyda'r gymuned a mudiadau cymunedol i ymgysylltu â phobl o bob oed.

Efallai mai un o agweddau pwysicaf y fenter hon yw'r gwelliant mawr mewn lefelau ymgysylltu a llesiant ar draws y gymuned gyfan.

Trwy ymgysylltu cymunedol, gall aelodau ein cymuned deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau a wneir ar gyfer eu cymuned NHW.

Enillwyr Prosiect Ymgysylltu Cymunedol Gorau 2019



Cyngor Tref Blaenafon - Cychwynnodd Prosiect Cymunedol Pontio'r Cenedlaethau Blaenafon ym mis Mai 2018 yn rhan o Wythnos Gweithredu ar Dementia. Gydag arian gan Gyngor Tref Blaenafon mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, cafodd y prosiect ei lansio yn y Pwll Mawr, Blaenafon. Nod y prosiect oedd ymgysylltu â thrawstoriad o'r gymuned, bod yn seiliedig ar egwyddorion oed weddus a dementia-weddus a chael ei hwyluso gan wirfoddolwyr o bob oed - gan gynnwys pobl ifanc o Ddarpariaeth Ieuencid Hwb ym Mlaenafon. Gydag arian 'More & Better' gan y Paul Hamlyn Foundation llwyddwyd i ddatblygu'r elfen wirfoddoli ymhellach.

Gan fod poblogaeth gynyddol ac uwch na'r cyfartaledd o bobl hŷn ym Mlaenafon, roedd y Cyngor yn deall fod gwaith rhwng cenedlaethau a rhagnodi cymdeithasol yn ddull buddiol iawn o wella bywydau a llesiant hen ac ifanc fel ei gilydd.

Roedd y prosiect yn cynnig gweithgarwch ymgysylltu dyfnach oedd yn ceisio mynd i'r afael â materion cymdeithasol, yn sicrhwydd o ran cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd. Dangosodd welliant amlyg yn hyder pobl, gan gynnig cyfleoedd i rannu sgiliau, ychwanegu gwerth i fywydau pobl a helpu mynd i'r afael â'r unigrwydd ac unigedd sy'n effeithio pobl o bob oed.

Cafodd ein gwaith ymgysylltu gefnogaeth gref gan ein prif bartneriaid, sef:

Cymdeithas Alzheimer; y Groes Goch Brydeinig; Cartrefi Cymunedol Bron Afon; Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; Y Lleng Frenhinol Brydeinig; Prosiect Ymgysylltu & Ymrymuso Dementia; Western Power Distribution; Hwb – Blaenafon; Heneiddio'n Dda yng Nghymru – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Un o themâu cytunedig y prosiect oedd darparu methodoleg ymgysylltu newydd yn ymgorffori treftadaeth leol, wedi'i fframio gan brosiect Cyfuno Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn anelu at wella bywydau mewn cymunedau difreintiedig trwy weithgareddau diwylliannol, gan roi Blaenafon ar reng flaen arfer blaengar yng Nghymru.

Wedi lansio'r prosiect cynhaliwyd chwe gweithdy thematig misol rhwng y cenedlaethau a darparwyd cludiant rhad ac am ddim i bob canolfan. Arweiniodd hynny at ffigyrau presenoldeb cyfartalog rhwng 50 a 60 ymhob gweithdy. Gweler isod y dolenni sy'n cynnig trosolwg o'r dulliau ymgysylltu a'r ymateb cymunedol ymhob gweithdy.

<https://we.tl/t-f50dUekMXG>

<https://vimeo.com/312527031/b2e7de372b>

Mae'r ffaith y cafodd y prosiect ei hwyluso gan wirfoddolwyr lleol wedi darparu sgiliau gwaith ar gyfer yr aelodau iau, gan arwain at ddatblygu tair rôl wirfoddoli, rhywbeth sydd wedi cefnogi mewn ffordd amlwg iawn gynaliadwyedd a llywodraethiant ariannol y prosiect er mwyn gallu parhau i'w gynnal yn ystod 2019.

Un o'r nifer fawr o ddeilliannau cadarnhaol o'r prosiect yw bod meddygon teulu erbyn hyn yn rhoi 'rhagnodiadau cymdeithasol' - sef cyfeirio cleifion at y gweithdai ac eiriol yn bendant iawn dros y llwyddiant a gafodd y prosiect wrth gefnogi ein cymuned fywiog a hyfryd ym Mlaenafon.

Enillwyr Gwobr Ymgysylltu Cymunedol Gorau 2018

Cyngor Tref Llanelli

Yn 2015 nododd Cyngor Tref Llanelli, trwy Ymgynghoriad Cymunedol, bryderon ynghylch diogelwch disgyblion oedd yn teithio i ac o ysgolion yn ardal y Cyngor. Yn dilyn trafodaethau gyda'r tîm Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau, cytunwyd cyflwyno cais i gynllun Grant Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau, cynllun Llywodraeth Cymru dan ofal Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer cyfanswm o 5 ysgol ac 1 campws coleg, o fewn ffin ddaearyddol a elwid yn Gais Gorllewin Llanelli. Er mwyn datblygu cais llwyddiannus, cynhaliwyd proses helaeth o Ymgysylltu Cymunedol trwy:

- Swyddogion yn trafod gydag Aelodau Tref a Chyngor Sir lleol, gan ennyn cefnogaeth aelodau etholedig i'r prosiect a llywio'r cais gwreiddiol.
- Trafodaeth gyda'r AC a'r AS lleol, gan ennyn cefnogaeth aelodau etholedig i'r prosiect a llywio'r cais gwreiddiol.
- Rhwydweithiau Cymunedol e.e. Partneriaeth Gymunedol Llanelli, trwy gyfarfodydd i ddatblygu'r cais.
- Ymgysylltu uniongyrchol â phob ysgol, trwy gyfarfodydd gyda Llywodraethwyr, Penaethiaid a Chymdeithasau Rhieni ac Athrawon. Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag aelodau Cynghorau Ysgolion trwy eu gwahodd i swyddfeydd y Cyngor Tref i gyfarfod â Maer y Dref.

Trwy ymgysylltu, cafodd y prosiect lythyron cefnogaeth gan bob Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, Cyngor Ysgol a Chorff Llywodraethol. Ysgrifennodd mudiadau cymunedol i gefnogi'r prosiect, gan gynnwys Partneriaeth Gymunedol Llanelli, Grŵp Gweithredu Cymunedau Mwy Diogel, cartref gofal lleol a Chanolfan Anabledd.

Mae'r prosiect arfaethedig yn unigryw, ac mae'n cynnwys ardaloedd Cyngor Tref a Chyngor Gwlad Llanelli, 5 ysgol, 1 coleg yn gwasanaethu tua 22,000 o drigolion. Cyflwynwyd y cais i Gyngor Sir Caerfyrddin, a chafodd ei ddewis ganddynt yn ddewis brosiect i'w gyflwyno am arian gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd fod y cais yn un eithriadol oherwydd ei ymgysylltu cymunedol a'i gwmpas uchelgeisiol.

Y cam nesaf yn natblygiad y prosiect oedd ffurfio gweithgor rhwng y Cynghorau Tref, Gwledig a Sir. Cynhaliwyd sioeau penffordd ymgysylltu ar draws y gymuned, a hysbysebwyd 5 digwyddiad ar Facebook, trwy ddosbarthu taflenni a thrwy ddanfon llythyrau trwy'r ysgolion.

Rhoddodd y digwyddiadau ymgysylltu hyn y cyfle i lywio'r cais terfynol, gan gynnwys gwelliannau diogelwch ffordd a gwelliannau i adeiladau ysgolion, gan gynnwys gwella cyfleusterau beicio a chyfleusterau aros i rieni. Mae'r prosiect yn gwella'r amgylchedd adeiledig ar draws Llanelli i drigolion a byddai wedi cymryd 65 mlynedd i Gyngor Sir Caerfyrddin ei weithredu pe na bai arian wedi dod ar gael.

Ar draws y 5 digwyddiad daeth tua 120 o bobl ynghyd. Buont yn datblygu'r cynllun yn uniongyrchol, gan ddarparu cynlluniau teithio unigol i rieni, awgrymiadau map ac arolygon. Trawsnewidiodd y mewnbynnau y cais, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2018 i Lywodraeth Cymru. Cyfanswm yr arian a ddisgwylir yw £340,000.

Gwobr Ymgysylltu Cymunedol Gorau 2017

Cyngor Cymuned Borth

Cefndir

Mae ein cymuned yn gallu dioddef o stormydd arfordirol a llifogydd dalgylch ac mae adeiladau'n gallu cael eu heffeithio gan lifogydd, gwyntoedd cryfion rheolaidd a hyd yn oed danau gwyllt o'r gors gerllaw. Mae'r gymuned yn gwerthfawrogi'r lleoliad heriol hwn yn fawr, ond er mwyn parhau i ffynnu yma mae angen inni fod yn gymuned gydnerth.

Cafodd y Cynllun Argyfwng Cymunedol ei greu yn sgil yr angen inni gymryd cyfrifoldeb am ein diogelwch ein hunain rhag yr elfennau, ac mae hynny yn ei dro yn ein helpu i greu cymuned fwy cydnerth. Mae'r Cynllun yn rhestru'r camau y mae angen inni eu cymryd mewn argyfwng, gan weithio mewn partneriaeth ac adeiladu rhwydwaith cymunedol, a datblygodd i fod yn ffordd effeithiol o ymgysylltu â'r gymuned.

Rydym wedi arwain ar y gwaith o ddatblygu'r Cynllun, ond gwnaed hynny ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, Gwylwyr y Glannau, RNLI, Cyngor Sir Ceredigion a'r gymuned. Mae hyn wedi dod â sefydliadau proffesiynol a phobl leol a'u sgiliau, profiad a gwybodaeth leol at ei gilydd er mwyn gweithio tuag at nod cyffredin.

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn meithrin ymdeimlad o berchnogaeth, ac rydym yn mynd ati o ddifrif i annog adborth er mwyn sicrhau ein bod yn cael y Cynllun sy'n esblygu'n barhaus yn iawn.

Dulliau a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â'r gymuned

- Cyfarfodydd cyhoeddus, Cyfarfodydd Wardeniaid Cymunedol, Sesiynau galw heibio
- Cynghorwyr yn aelodau o grwpiau cymunedol lleol e.e. Sefydliad y Merched, Henoed, yr Eglwys
- Rhwydwaith Wardeniaid Cymunedol brys
- Hysbysfyrddau, tudalen Facebook y Cyngor Cymuned a gwefan gymunedol:-

<http://borthcommunity.info/index.php/component/search/?searchword=emergency%20plan&searchphrase=all&Itemid=265>

- Mynychu nosweithiau Ymgysylltu â'r Gymuned
- Grwpiau ebost Wardeniaid Cymunedol a thrigolion y gymuned
- System rhybudd negeseuon testun (adeg colli trydan/cyswllt ffôn)

Ymateb y gymuned

- Adborth cadarnhaol iawn oddi wrth y gymuned
- Rhannu profiadau ar ôl stormydd a llifogydd gaeafau 2013 & 2014
- 53 o Wardeniaid gwirfoddol, gwirfoddolwyr yn y ganolfan ar gyfer pobl oedd wedi gorfod gadael eu cartrefi. Ein gobaith yw y bydd y rhan fwyaf o drigolion yn dod yn Wardeniaid.
- Dosbarthodd Wardeniaid holiaduron er mwyn inni allu cyrraedd mwy o bobl ac ystod ehangach o drigolion.
- Y nifer uchaf o bentrefwyr a wirfoddolodd ar gyfer menter

Tystiolaeth o lwyddiant

- Daeth â'r gymuned together, daeth pobl i adnabod eu cymdogion ac i ofalu am ei gilydd
- Mae tudalen laniog gwefan y Cynllun wedi cofnodi 10,794 o ymweliadau
- Cafodd y Cynllun a'r broses eu rhannu gydag eraill ac mae hynny wedi meithrin cyfleoedd ymgysylltu newydd
- Cymerodd pobl leol ran mewn digwyddiadau hyfforddi perthnasol e.e. hyfforddiant diffibriliwr
- Cyfoeth Naturiol Cymru 'mae'n darparu ffordd effeithiol o gyfathrebu gyda chysylltiadau allweddol, cyn, yn ystod ac wedi llifogydd, gan gynnig tawelwch meddwl y bydd gwybodaeth hollbwysig yn cael ei chyfleu'n brydlon o fewn y gymuned er mwyn ei gwneud yn fwy cydnerth'
- RNLI Borth 'mae wedi crynhoi at ei gilydd nifer o grwpiau ac unigolion lleol sydd wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y cynllun yn llwyddo i ddiwallu anghenion y gymuned a'r gwasanaethau achub'
- Cyngor Cymuned Llangynfelyn 'roedd yr help yn amhrisiadwy... wastad wedi bod yno i gefnogi ein hymdrechion trwy gydol y broses'¹¹

Hyfforddiant Un Llais Cymru

Modiwl 8 Cyflwyniad i Ymgysylltu Cymunedol

Er mwyn gweld y cyrsiau hyfforddi eraill y mae Un Llais Cymru yn eu cynnig ar nifer o faterion gwahanol ewch i:-

<http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb/Default-7451.aspx>

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am hyfforddiant cysylltwch â :-

Wendi Patience ebost: wpatience@unllaiscymru.cymru

Paul Egan ebost: pegan@unllaiscymru.cymru

neu

Ffoniwch Swyddfa Un Llais Cymru : 01269 595400

Cyfeiriadau

Deall Lleoedd yng Nghymru (Sefydliad Materion Cymreig) - mae'r wefan yn cynnwys data, mapiau a diagramau am gyflogaeth, cymudo, addysg, manwerthu, twristiaeth, tai, yr amgylchedd, gweithgareddau diwylliannol ac ieithoedd. Bydd grwpiau cymunedol yn gallu cyfrannu deunydd hefyd. Bydd pecyn archwilio tref yn eich tywys trwy'r broses o gasglu gwybodaeth ac uwchlwytho adroddiad ar y wefan.

Mae Deall Lleoedd yng Nghymru yn anelu hefyd i annog cydweithio rhwng trefi ar draws Cymru. Mae'r wefan yn galluogi defnyddwyr i ddarganfod pa drefi sydd debycaf i'w tref nhw, gan greu cyfleoedd i gael sgysiau newydd a rhannu arfer gorau. Casglwyd data ar gyfer y rhan fwyaf o drefi a chanddynt boblogaeth dros 1000.

<https://www.iwa.wales/agenda/2019/10/understanding-welsh-places/>

Mae **Llunio Fy Nhref** yn becyn ymarferol i'ch ysbrydoli i chwarae eich rhan yn llunio'r lleoedd sy'n bwysig i chi. Bydd yn rhoi i chi'r offerynnau a syniadau i newid a gwella eich tref, pentref neu le cyhoeddus yng Nghymru.

<https://www.shapemytown.org/>

Cyngor Bro Morgannwg - Pecyn Mapio Cymunedol

Arweiniad hwylus i helpu cymunedau i ddeall a chymryd rhan ym mhroses mapio cymunedol. Mae'r pecyn yn ceisio cynnig trosolwg o bob agwedd ar fapio cymunedol, gan gynnwys:

- **Cyn-mapio** - gwaith ymchwil, datblygu fframwaith a rhwydwaith cymunedol
- **Mapio** - gwneud y gwaith mapio a chynnig awgrymiadau o ffyrdd gwahanol o ymgysylltu â'r gymuned
- **Gweithredu a chynnal momentwm.**

Mae'r atodiadau'n cynnig arweiniad manwl ar ddatblygu cynllun ymgysylltu cymunedol, paratoi digwyddiad ymgysylltu cymunedol, syniadau ar gyfer gweithgareddau mapio cymunedol ac enghraifft o arolwg cymunedol. Efallai y byddwch yn dymuno dewis rhai gweithgareddau neu syniadau o'r pecyn all fod yn ddefnyddiol i'ch cymuned arbennig chi.

Mae'n bwysig bod yn hyblyg wrth fynd ati i drefnu eich ymgysylltu cymunedol gan y gall fod angen defnyddio dulliau gwahanol gyda grwpiau a chymunedau gwahanol neu ar gyfer prosiect penodol.

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/Rural-Communities/Evolving-Communities/Community-Mapping/Community-Mapping-Toolkit.aspx>



Specialist Local Council Insurance Brokers with traditional values




Providing specialist insurance solutions to:


- ▶ Town and Parish Councils
- ▶ Charities, Not for Profit and Voluntary Organisations
- ▶ Village Halls and Community Buildings




At Came & Company Local Council Insurance, service and advice are at the core of everything we do. We take care to get to know our clients and build relationships on a personal level. With Came & Company Local Council Insurance, you benefit from personal visits and tailored advice on insurance – from industry specialists who are passionate about supporting the sector.

 01483 462860

 local.councils@cameandcompany.co.uk

 www.parishinsurance.co.uk

 follow us on twitter @CameandCo

Came & Company Local Council Insurance is a trading name of Arthur J. Gallagher Insurance Brokers Limited, which is authorised and regulated by the Financial Conduct Authority. Registered Office: Spectrum Building, 7th Floor, 55 Blythswood Street, Glasgow, G2 7AT. Registered in Scotland. Company Number: SC108909. FP1402-2019 Exp. 03/12/20.

Un Llais Cymru



One Voice Wales

MWY AM UN LLAIS CYMRU

Un Llais Cymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref trwy Gymru. Gweledigaeth Un Llais Cymru yw:

“Gweithio gyda chynghorau lleol yng Nghymru i liwio lleoedd y mae cymunedau eisiau byw ynddynt”

Mae Un Llais Cymru yn anelu at gefnogi Cyngorau Cymuned a Thref i wiredu'r weledigaeth hon a mabwysiadodd y Datganiad Cenhadaeth canlynol i lywio ei waith:

“Cynrychioli buddiannau Cyngorau Cymuned a Thref; codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r haen gyntaf hon o lywodraeth a chydweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y sector yn cyfrannu'n llawn i'r nod o ddatblygu cymunedau deinamig a chynaliadwy yng Nghymru.”

Un Llais Cymru
24c Stryd y Coleg

Rhydaman
SA18 3AF

01269 595400

gweinydd@unllaiscymru.cymru

www.unllaiscymru.org.uk

Un Llais Cymru



One Voice Wales